Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Cynllun Gwaith
2026–27

## Pwy yw pwy yn y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol



Tony Young
(Cadeirydd)



Lin Slater
(Is-gadeirydd)



Artie Meakin



Des Mannion



Dave Street



John Williams

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ 4

**Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol: 5 Maes Allweddol ar gyfer Effeithiolrwydd Diogelu** ........ 6

**Cynllun Gwaith 2026/27** ........ 7

**Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015** ........ 13

# Cyflwyniad

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Cenedlaethol**

Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd sydd wedi dylanwadu ar ein cynllun gwaith, sef:

1. ***Darparu cymorth a chyngor*** *i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol*
2. **Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau** *i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru*
3. **Gwneud argymhellion** *i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny* (A.132 (2)).

At hynny, mae wyth o gyfrifoldebau penodol y Bwrdd Cenedlaethol yn cael eu hegluro yn *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl*, sef y Canllawiau ynghylch Diogelu, dan Ran 7 y Ddeddf. Hynny yw:

1. [Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] **gweithio ochr yn ochr â** *Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i sicrhau gwelliannau cyson i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru* (par. 246)
2. Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn **ymgysylltu â chadeiryddion** *y Byrddau Diogelu, ac arolygiaethau perthnasol…o leiaf ddwywaith y flwyddyn* (par. 258)
3. Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol *yn* **cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth** *ar ddiogelu ac amddiffyn mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru* (par. 261)
4. Os bydd...yn nodi **thema o bryder***…gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol* (par. 263)
5. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol *yn defnyddio mecanweithiau i* **ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio,** *ymarferwyr ac unigolion arbenigol* (par. 264)
6. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol *yn* **cyhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun gan gynnwys unrhyw waith arfaethedig**. *Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol* (par. 265)
7. Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol *ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "***ymgynghori â'r** *rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru* (par. 266)
8. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn **ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'** *y Byrddau Diogelu* (par. 266).

Er mwyn cynorthwyo’r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i gyflawni ei ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau, **sefydlwyd partneriaeth strategol dair blynedd â Phrifysgol Metropolitan Manceinion (2024-2027)** i ddarparu adnodd ymchwil a datblygu. Mae’r bartneriaeth hon yn parhau i gyfoethogi gwaith y Bwrdd Cenedlaethol a chefnogi’r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i lunio dyfodol diogelu yng Nghymru, ac mae’n cynnwys adolygiad thematig bob dwy flynedd o adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.

**Asesu Effeithiolrwydd Diogelu**

Yn rhan o’r gwaith o ddatblygu dull cydlynol a chyson o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am effeithiolrwydd diogelu drwy Gymru gyfan, nododd y Bwrdd Cenedlaethol **5 Cwestiwn Allweddol** y credwn y dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol fynd i’r afael â nhw, yn barhaus ac yn flynyddol. Mae’r cwestiynau hynny fel a ganlyn.

# Fframwaith Perfformiad Diogelu Amlasiantaeth Cenedlaethol: 5 Maes Allweddol ar gyfer Effeithiolrwydd Diogelu

## 1. Y broses ddiogelu

How is the board assured that arrangements are effective in **identifying** and **responding** to safeguarding concerns? What are the outcomes of regional safeguarding processes and interventions?

Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod trefniadau'n effeithiol o safbwynt **adnabod** pryderon am ddiogelu ac o safbwynt **ymateb** iddynt? Beth yw **canlyniadau** prosesau ac ymyriadau diogelu rhanbarthol?

## 2. Gweithgarwch a data amlasiantaeth

Sut y mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd bod y **protocolau sy'n bodoli eisoes rhwng asiantaethau'n gweithio yn effeithiol**, pan nodir bod unigolion yn wynebu risg o ddioddef niwed? Pa **ddata** sy'n cael ei gasglu am hynny, sut y caiff ei rannu a pha dystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod?

## 3. Llinynnau thematig

Pa **brif ffynonellau thematig niwed**, sy'n gofyn am ymateb diogelu yn lleol, y ceir tystiolaeth ohonynt yn nata'r Bwrdd? Pa **gamau** sydd wedi'u nodi er mwyn ymateb i'r dystiolaeth thematig honno?

## 4. Adborth defnyddwyr gwasanaeth

Beth yw **amcanion** y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol **o safbwynt casglu adborth defnyddwyr gwasanaeth** am weithgarwch diogelu uniongyrchol? Beth y mae'r **metrigau** sy'n cofnodi'r adborth hwnnw'n ei ddweud wrth y Bwrdd? Sut y mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r dystiolaeth honno a beth yw'r amserlen ar gyfer gwneud hynny?

## 5.Gwybodaeth am y gweithlu

Beth a wyddys am **broffil** y gweithlu diogelu?

- Sut y mae **trefniadau recriwtio a chadw** yn effeithio ar y broses o gyflawni dyletswyddau diogelu?
- I ba raddau y caiff **hyfforddiant amlasiantaeth** ei ddarparu i'r gweithlu diogelu ac i ba raddau y mae'r gweithlu diogelu yn manteisio arno?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod asiantaethau'n deall anghenion y gweithlu diogelu o ran ***llesiant a chymorth*** ac yn ymateb iddynt

# Cynllun Gwaith 2026/27

## Dyletswydd Strategol 1: Darparu cymorth a chyngor i Fyrddau Diogelu, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn effeithiol.

***Cyfrifoldeb penodol 1:** [Mae'r Bwrdd Cenedlaethol yn] **gweithio ochr yn ochr â** Byrddau Diogelu Oedolion a Byrddau Diogelu Plant i **sicrhau gwelliannau cyson** i bolisïau ac arferion diogelu ledled Cymru (par. 246)*

### Gweithgareddau (Sut?)

- Aelodau'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn cynnig cyngor a chymorth iddynt.
- Ymgysylltu a chyfarfod yn rheolaidd â Chadeiryddion a Rheolwyr Busnes y Byrddau Diogelu.
- Cynnwys adolygiad a chrynodeb o waith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn ei Adroddiad Blynyddol.
- Parhau i hwyluso datblygu fframwaith perfformiad diogelu amlasiantaeth i Gymru gyfan gan ofyn i'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ystyried 5 cwestiwn allweddol yn eu hadroddiadau blynyddol.
- Cyhoeddi a rhannu canfyddiadau'r Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Plant a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2025. (Partneriaeth Prifysgol Metropolitan Manceinion / Y Bwrdd Cenedlaethol)
- Monitro cynnydd.
- Gofyn am wybodaeth am gynnydd yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' (Medi 25).
- Comisiynu Adolygiad Ymarfer Oedolion i'w gyhoeddi yn ystod Chwarter 3 26/27, gyda ffocws ar lais/profiadau go iawn a chyfnodau pontio.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i ddatblygu, cefnogi a chynnal seminarau a gweminarau yn ystod yr Wythnos Diogelu.
- Parhau i gyfrannu i'r Wythnos Genedlaethol Diogelu.
- Cynnal cynhadledd flynyddol.

## ***Cyfrifoldeb penodol 2:*** *Bydd [y Bwrdd Cenedlaethol] yn* ***ymgysylltu â chadeiryddion*** *y Byrddau Diogelu,……… o leiaf ddwywaith y flwyddyn (par. 258)*

### Gweithgareddau (Sut?)

» Bydd yr aelodau yn sicrhau bod y Bwrdd Cenedlaethol yn ymwybodol o faterion a themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac sy'n effeithio ar y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, drwy gyfarfodydd rheolaidd â chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

» Bydd yr aelodau hefyd yn sicrhau trafodaethau dwy ffordd â sefydliadau yng Nghymru sy'n ymwneud â diogelu, drwy nodi'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r dirwedd ddiogelu yng Nghymru, gan gynnwys y canlynol ymhlith eraill:

1. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
2. Comisiynydd Plant Cymru
3. Gofal Cymdeithasol Cymru
4. Cyngor y Gweithlu Addysg
5. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
6. Arolygiaethau Cymru
7. Llywodraeth Cymru

## ***Cyfrifoldeb penodol 8.*** *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn* ***ystyried yr hyn a ddysgwyd o weithgareddau 'ymgysylltu â defnyddwyr'*** *y Byrddau Diogelu (par. 266)*

### Gweithgareddau (Sut?)

» Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn sicrhau bod llais defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, fel un o'r 5 cwestiwn allweddol y mae'n rhaid eu hateb.

» Ystyried themâu sy'n deillio o broses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

» Hybu llais pobl ifanc mewn gwasanaethau diogelu trosiannol.

.

# Dyletswydd strategol 2: Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.

*Cyfrifoldeb penodol 3: Bydd aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am agweddau polisi a thystiolaeth ar ddiogelu ac amddiffyn (gan gynnwys) mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt er mwyn dysgu o'r rheini a gwerthuso perfformiad cymharol Cymru (par. 261)*

### Gweithgareddau (Sut?)

- Darparu aelodaeth i'r Bwrdd Gweinidogol sy'n gyfrifol am sicrhau'r gwaith dysgu eang a nodir drwy Storfa Cymru ar gyfer Adolygiadau Diogelu.
- Ymgysylltu â grŵp goruchwylio strategol proses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. At hynny, bydd y Bwrdd yn parhau i gymryd rhan ym mhroses yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, a monitro'r modd y caiff ei roi ar waith, o ran ei gyfraniad i waith dysgu a'i effaith ar ymarfer.
- Cymryd rhan mewn gweminarau a chynadleddau ar draws y Pum Gwlad a'u cefnogi.
- Comisiynu Adolygiad Thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac ystyried effaith adolygiadau blaenorol.
- Rhoi barn annibynnol a chynghori ynghylch effaith ac effeithiolrwydd y cynllun gweithredu gweinidogol ar gyfer atal cam-drin pobl hŷn.
- Darparu trosolwg a monitro'r gwaith o weithredu'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

## ***Cyfrifoldeb penodol 4:*** *Os bydd…yn nodi* ***thema o bryder****…gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru neu'r arolygiaeth berthnasol (par. 263)*

### Gweithgareddau (Sut?)

Caiff materion sy'n dod i'r amlwg eu nodi er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu systemau a phrosesau diogelu ac er mwyn dylanwadu ar y gwaith hwnnw.

» Cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd â chadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

» Cael trafodaethau effeithiol â rheoleiddwyr ac arolygiaethau gwasanaethau er mwyn ystyried unrhyw ddatblygiadau neu welliannau i drefniadau diogelu a rhoi cyfle i adnabod themâu sy'n peri pryder:

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Estyn
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi.

» Cysylltu â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru ynghylch materion diogelu sy'n dod i'r amlwg, er mwyn cael cynghreiriau effeithiol.

» Monitro cynnydd yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru gan y Bwrdd Cenedlaethol.

» Bydd themâu sy'n peri pryder yn cael eu rhannu â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, ac adroddir yn eu cylch wrth Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau ateb ar lefel Cymru gyfan.

» Caiff unrhyw bryderon diogelu sy'n dod i'r amlwg ac a nodir gan y Bwrdd eu codi drwy'r canlynol:

- cyfarfodydd misol â swyddogion Llywodraeth Cymru
- canlyniad tystiolaeth o ymchwil, adolygiadau neu waith ymgysylltu â grwpiau cyfeirio arbenigol, gan gynnwys y Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- gwaith cyfathrebu ysgrifenedig ynghylch themâu sy'n peri pryder ac sy'n cael eu codi gyda'r Bwrdd Cenedlaethol
- trafodaethau ffurfiol â'r Dirprwy Weinidog ddwywaith y flwyddyn
- camau i gomisiynu ymchwil i feysydd sy'n peri pryder, sy'n dod i'r amlwg ac a nodir gan y Bwrdd Cenedlaethol.

## ***Cyfrifoldeb penodol 5:*** *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn defnyddio mecanweithiau i* ***ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o grwpiau cyfeirio****, ymarferwyr ac unigolion arbenigol (par. 264)*

### Gweithgareddau (Sut?)

Mae'r Bwrdd yn parhau i fuddsoddi llawer o amser ac ymdrech mewn meithrin cydberthnasau parhaol ag Arolygiaethau Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd â chyrff ac asiantaethau ar draws Cymru sydd ag arbenigedd penodol. Mae'r Bwrdd yn cael ei gynrychioli ar ystod o Fyrddau, fforymau, byrddau prosiectau a grwpiau diddordeb arbennig er mwyn cefnogi'r broses o gyfnewid gwybodaeth ac arbenigedd.

## ***Cyfrifoldeb penodol 6:*** *Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn c****yhoeddi ei adroddiadau blynyddol ei hun*** *gan gynnwys* ***unrhyw waith arfaethedig****. Bydd hefyd yn cynnal digwyddiad neu ddigwyddiadau ymgysylltu blynyddol (par. 265)*

### Gweithgareddau (Sut?)

- Cynnal adolygiad o strategaeth gyfathrebu'r Bwrdd Cenedlaethol a'i wefan.
- Cefnogi a hyrwyddo ymgyrchoedd cyhoeddus cenedlaethol y bwriedir iddynt atal niwed oherwydd camdriniaeth, esgeulustod a chamfanteisio, adnabod niwed o'r fath ac ymateb iddo.
- Ymateb i ymgyngoriadau cenedlaethol perthnasol.
- Cynhyrchu adroddiad blynyddol a chynllun gwaith amserol.

## ***Cyfrifoldeb penodol 7:*** *Mae gan y Bwrdd Cenedlaethol ddyletswydd benodol o dan adran 133(2)(d) o'r Ddeddf i "****ymgynghori â'r*** *rhai y gallai trefniadau i ddiogelu oedolion a phlant yng Nghymru effeithio arnynt". Bydd yn defnyddio'r ddyletswydd honno i wella ei ddealltwriaeth ac ymestyn ei brofiad o ddiogelu ac amddiffyn yng Nghymru (par. 266)*

### Gweithgareddau (Sut?)

- Monitro cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- Adolygu'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad "Cyfiawnder trwy ein Dewrder" a chanlyniad ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw.

# **Dyletswydd Strategol 3:** **Gwneud argymhellion** i Weinidogion Cymru ynghylch sut y gellid gwella'r trefniadau hynny (A.132 (2)).

*Cyfrifoldeb penodol 4: Os bydd...yn nodi* ***thema o bryder****…gallai'r Bwrdd Cenedlaethol argymell i Weinidogion Cymru y dylai'r mater gael ei drosglwyddo i'w archwilio gan Lywodraeth Cymru (par. 263)*

**Gweithgareddau (Sut?)**

» Cyflwyno argymhellion ffurfiol i'r Gweinidog yn yr Adroddiad Blynyddol.

» Bydd argymhellion blaenorol yn parhau i gael eu monitro ddwywaith y flwyddyn drwy'r cyfarfodydd ffurfiol rhwng y Bwrdd Cenedlaethol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol.

» Mae'r Bwrdd Cenedlaethol wedi cyflwyno papur cyfarwyddydau i'r Gweinidog yn 2024/25. Byddwn yn cyfrannu i'r adolygiad annibynnol o lywodraethiant diogelu sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru ac yn ymgysylltu ag ef. Mae'r adolygiad hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2026.

# Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 133(1) a (2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** (1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2015.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r Bwrdd" ("Board member") yw aelod o'r Bwrdd Cenedlaethol;

ystyr "Bwrdd Cenedlaethol" ("National Board") yw'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol;

ystyr "Bwrdd Diogelu" ("Safeguarding Board") yw bwrdd diogelu a sefydlir o dan adran 134 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Cyfansoddiad**

**3.** (1) Mae'r Bwrdd Cenedlaethol i'w ffurfio o hyd at 6 aelod a benodir gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi un o aelodau'r Bwrdd yn gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu'r telerau y penodir aelodau'r Bwrdd odanynt.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu staff ac adnoddau eraill i gynorthwyo'r Bwrdd Cenedlaethol i gyflawni ei swyddogaethau.

### Trafodion mewn cyfarfodydd

**4.** (1) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol ethol un o'i aelodau yn is-gadeirydd.

(2) Mae'r cadeirydd neu'r is-gadeirydd i lywyddu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(3) Mae'r Bwrdd Cenedlaethol i wneud penderfyniadau drwy bleidlais mwyafrif syml o aelodau'r Bwrdd sy'n bresennol; mae'r person sy'n llywyddu yn y cyfarfod i gael ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

(4) 3 aelod o'r Bwrdd, gan gynnwys y person sy'n llywyddu, yw'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

(5) Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol gadw cofnodion o'i gyfarfodydd a chofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd.

### Grwpiau atodol a sefydlir gan y Bwrdd Cenedlaethol

**5.** (1) Caiff y Bwrdd Cenedlaethol sefydlu grwpiau atodol i ystyried—

(a) materion penodol,

(b) materion sy'n ymwneud â diogelu plant yn unig, neu

(c) materion sy'n ymwneud â diogelu oedolion yn unig,

ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd Cenedlaethol.

(2) Caniateir i grŵp o'r fath gael ei ffurfio o'r canlynol—

(a) aelodau'r Bwrdd yn unig,

(b) personau nad ydynt yn aelodau ac un neu fwy o aelodau'r Bwrdd, neu

(c) dim ond personau nad ydynt yn aelodau.

### Cyfarfodydd rhwng aelodau'r Bwrdd Cenedlaethol a chadeiryddion Byrddau Diogelu

**6.** Rhaid i un neu fwy o aelodau'r Bwrdd wahodd cadeiryddion y Byrddau Diogelu, a gwneud trefniadau i gyfarfod â hwy o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

### Ymgynghori â phobl yr effeithir arnynt

**7.** Rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol drefnu i gyfarfod, o leiaf unwaith y flwyddyn, â grŵp o bersonau sy'n cynrychioli'r rhai y gall trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru effeithio arnynt.

## Adroddiad Blynyddol

**8.** (1) Rhaid i’r Bwrdd Cenedlaethol gyflwyno ei adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 31 Hydref bob blwyddyn, mewn cysylltiad â’r flwyddyn sy’n dod i ben ar y 31 Mawrth blaenorol.

(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y canlynol—

(a) unrhyw gymorth a chyngor a roddwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol i’r Byrddau Diogelu;

(b) unrhyw waith arall a wnaed gan y Bwrdd Cenedlaethol, neu gan grwpiau atodol a sefydlwyd gan y Bwrdd Cenedlaethol, a’r canlyniadau a sicrhawyd;

(c) digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau a wnaed gan y Byrddau Diogelu i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru, gan gynnwys —

(i) y gwersi a ddysgwyd oddi wrth adolygiadau ymarfer plant ac adolygiadau ymarfer oedolion a gynhaliwyd gan Fyrddau Diogelu ac oddi wrth adolygiadau ac ymchwiliadau eraill;

(ii) enghreifftiau o adegau pan gafodd dysgu, gwybodaeth ac adnoddau eu rhannu rhwng Byrddau Diogelu o fewn ardal Bwrdd Diogelu neu rhwng Byrddau Diogelu ledled Cymru;

(iii) enghreifftiau o fesurau effeithiol y mae Byrddau Diogelu wedi eu cymryd i roi i blant ac oedolion yr effeithiwyd arnynt gyfle i gymryd rhan mewn gwaith Bwrdd Diogelu.

(d) unrhyw argymhellion y mae’r Bwrdd Cenedlaethol yn dymuno eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i’r Bwrdd Cenedlaethol roi’r adroddiad blynyddol ar gael i’r cyhoedd heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y cafodd ei gyflwyno.

(4) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr “adolygiad ymarfer plant” (“*child practice review*”) yw adolygiad a gynhelir gan Fwrdd Diogelu yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015(1) sy’n ymwneud â phlentyn; a

(b) ystyr “adolygiad ymarfer oedolion” (“*adult practice review*”) yw adolygiad a gynhelir gan Fwrdd Diogelu yn unol â rheoliad 4 o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 sy’n ymwneud ag oedolyn.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Mehefin 2015

## Nodyn esboniadol

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a sefydlir o dan adran 132 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod y Bwrdd Cenedlaethol i'w ffurfio o hyd at 6 aelod a benodir gan Weinidogion Cymru.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer trafodion yng nghyfarfodydd y Bwrdd Cenedlaethol.

Mae rheoliad 5 yn darparu i'r Bwrdd Cenedlaethol sefydlu grwpiau atodol i ystyried materion penodol.

Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol drefnu i gyfarfod â chadeiryddion y Byrddau Diogelu o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Cenedlaethol gynnal cyfarfodydd ymgynghori blynyddol.

Mae rheoliad 8 yn darparu bod yr wybodaeth i'w chynnwys yn adroddiad blynyddol y Bwrdd Cenedlaethol ac yn darparu ynglŷn â'r amseroedd ar gyfer llunio'r adroddiad a'i gyhoeddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Dysgwch fwy

www.bwrdddiogelu.cymru

@NISBwales

safeguardingwales